**Sesiwn 1999-2000 Rhif 23**

**PAPURAU BUSNES**

**RHAN 2 – ADRAN H**

# COFNOD O'R TRAFODION A PHLEIDLEISIAU AR GYFER DYDD MAWRTH 12 HYDREF 1999

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.03pm ar ôl anerchiad gan Y Prif Weinidog Bob Carr o Dde Cymru Newydd ac ymateb gan y Prif Ysgrifennydd.**

**2.03**

**Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd** (15 munud)
Cyrhaeddwyd y chwe chwestiwn cyntaf

**2.28pm**

**Mater o Drefn**

Codwyd mater o drefn gan Janet Davies, Plaid Cymru, yngln â'r ffaith fod y papurau ar gyfer cyfarfod y Cyngor Partneriaeth wedi cael eu cyflwyno yn hwyr. Ymatebodd y Prif Ysgrifennydd gan egluro nad oedd y sefyllfa yn dderbyniol a'i fod eisoes wedi gofyn i swyddogion ymchwilio i hyn.

**2.31pm**

**Mater o Drefn**

Codwyd mater o drefn gan Phil Williams, Plaid Cymru, a oedd yn bryderus nad oedd ymdrech ddifrifol wedi'i gwneud i ymateb i'w gwestiwn atodol. Ymatebodd y Prif Ysgrifennydd.

**2.34pm**

**Datganiad Busnes: y Trefnydd**

Cytunwyd ar y Datganiad Busnes.

Gwnaeth y Trefnydd ddatganiad ar benderfyniad y Dirprwy Lywydd yngln â'r Rheoliadau

Cymorth Trwsio Cartref (Estyn y Cymorth) (Cymru) 1999 yn cadarnhau nad oedd angen cyfeirio’r gorchymyn at bwyllgor pwnc.

**2.36pm**

**Dadl ar Drosedd ac Anhrefn**

Cynnig: Bod y Cynulliad:

- yn rhoi blaenoriaeth uchel i bolisïau a mentrau sy’n cyfrannu at leihau troseddu ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol;
- yn cefnogi ymdrechion y Swyddfa Gartref a’r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i roi holl ddarpariaethau’r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn ar waith;
- yn croesawu’r cynnig i ddynodi bod gan Gynulliad Cymru rôl i’w chwarae i leihau troseddau o fewn locws y Ddeddf honno, ac
- yn ymrwymo i ddatblygu rhaglenni gweithredu egnïol i atal troseddu, yn enwedig ymhlith yr ifainc ac i gymryd i ystyriaeth yr angen i ‘gynllunio troseddu allan’ wrth benderfynu ar ei bolisïau a rhaglenni.

Derbyniwyd y gwelliannau canlynol:

**Helen Mary Jones (Llanelli);**

1. Dileu pwynt bwled 2, a rhoi’r canlynol yn ei le; "yn mynegi ei amheuon dybryd yngln â’r Gorchmynion Cyrffyw Plant ac mae’n galw ar Lywodraeth y DU i newid y ddeddfwriaeth, gan ymgynghori â’r heddlu, grwpiau hawliau sifil, a chyrff priodol eraill, er mwyn sicrhau ei bod yn gydnaws â Deddf Hawliau Dynol 1998."

2. Ychwaneger ar ôl pwynt bwled 1; "Mae’r Cynulliad yn nodi bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddarostyngedig ar hyn o bryd i ddarpariaethau Deddf Hawliau Dynol 1998, sy’n ymgorffori Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol i gyfraith y DU."

3. Ym mhwynt bwled 3, dileer "Gynulliad Cymru" a rhoi’r canlynol yn ei le,

"Gynulliad Cenedlaethol Cymru."

4. Ym mhwynt bwled 4, ar ôl "wrth benderfynu ar ei bolisïau a rhaglenni",

ychwaneger; "a’r cyfryw raglenni i gynnwys mesurau sydd â’r nod o

fynd i’r afael â dieithrwch cymdeithasol, sy’n ffactor o bwys o safbwynt

creu diwylliant o droseddu."

**Peter Black (Gorllewin De Cymru);**

"Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

- yn cydnabod bod dieithrwch cymdeithasol yn un o brif achosion troseddu
- yn gresynu at y ffaith na ddarparwyd mwy o adnoddau i gynorthwyo i sefydlu Timau Troseddwyr Ifanc a Phartneriaethau Lleihau Troseddu
- yn cefnogi ymestyn cynlluniau "Arolwg Atal Troseddau yn y Cartref" i bob cwr o Gymru
- yn cefnogi cyflwyno teledu cylch cyfyng i fannau yng Nghymru lle mae llawer o droseddu, a’i fonitro’n briodol drwy’r cod canllawiau presennol, pan fo’r bobl leol yn ei gefnogi a phan fo digon o adnoddau gan yr heddlu i ategu’r defnydd a wneir ohono."

Pleidleisiwyd ar y gwelliant cyntaf yn enw Helen Mary Jones trwy ddangos dwylo a methodd y gwelliant

Pleidleisiwyd ar yr ail welliant yn enw Helen Mary Jones trwy ddangos dwylo. Roedd y Llywydd yn ansicr yngln â’r canlyniad a galwodd am bleidlais gadarnhau. Y canlyniad oedd:

O blaid 21

Yn erbyn 36

Ymatal 1

Methodd y gwelliant

Pleidleisiwyd ar y trydydd gwelliant yn enw Helen Mary Jones trwy ddangos dwylo a

mabwysiadwyd y gwelliant

Pleidleisiwyd ar y pedwerydd gwelliant yn enw Helen Mary Jones trwy ddangos dwylo a mabwysiadwyd y gwelliant

Pleidleisiwyd ar yr ail welliant yn enw Peter Black trwy ddangos dwylo. Roedd y Llywydd yn ansicr yngln â'r canlyniad a galwodd am bleidlais gadarnhau. Y canlyniad oedd:

O blaid 29

Yn erbyn 28

Ymatal 1

Mabwysiadwyd y gwelliant

Cafwyd pleidlais gadarnhau ar y cynnig diwygiedig gyda'r canlyniad canlynol

O blaid 15

Yn erbyn 15

Ymatal 26.

Defnyddiodd y Llywydd ei bleidlais fwrw a phleidleisiodd yn erbyn, methodd y cynnig diwygiedig.

**4.14pm**

**Dadl ar y Cynllun Prosesu Lloi**

**Cynnig** bod y Cynulliad hwn yn nodi'r camau a gymerwyd gan Gabinet y Cynulliad i ennyn cefnogaeth i'r cynllun lloi Cymreig, ac yn mynegi ei siom fawr nad yw'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cymeradwyo ei gynigion ar gyfer y cynllun, ac yn ategu ei ymrwymiad i helpu diwydiant godro Cymru i adeiladu dyfodol llwyddiannus trwy fynd i'r afael â'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer y sector llaeth. (Caiff copïau o'r Cynllun Gweithredu eu hanfon at yr Aelodau maes o law).

**Derbyniwyd gwelliannau a gyflwynwyd yn unigol gan yr aelodau canlynol:**

**Dafydd Wigley (Caernarfon); Michael German (De Ddwyrain Cymru); Nick Bourne**

**(Canolbarth a Gorllewin Cymru);**

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu’r gwelliannau canlynol i’r cynnig uchod:

Dileer pob peth ar ôl "cynllun lloi Cymreig", ac ychwaneger:

"ac yng ngoleuni digwyddiadau diweddar, mae’n galw ar y Cabinet i wneud datganiad cwbl bendant heddiw ynglyn ag a yw’r cynllun i fynd rhagddo neu beidio."

Gan nad oedd canlyniad y bleidlais trwy ddangos dwylo yn glir galwyd am bleidlais gadarnhau gyda’r canlyniad canlynol:

O blaid 30

Yn erbyn 27

Ymatal 1

Cyfanswm

58

Pasiwyd y gwelliant

Unwaith eto, gan nad oedd canlyniad y bleidlais trwy ddangos dwylo yn glir, galwyd am bleidlais gadarnhau gyda’r canlyniad canlynol:

O blaid 30

Yn erbyn 27

Ymatal 1

Cyfanswm

58

Pasiwyd y cynnig diwygiedig

**5.09pm**

**Pwnc ar Gyfer Dadl Fer**
Jonathan Morgan (Canol De Cymru) Gwobrwyo Athrawon Da

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.35pm**

*******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mercher 13 Hydref 1999**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**